# Sicrhau agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref

Adolygiad Cymru 2011 / 12
Rhaglen Cymru 2012 / 13

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Equality and Human Rights Commission

# Cynnwys

Rhagair....3
Pwyllgor Cymru – gweithio mewn partneriaeth ....4
Cwrdd â Phwyllgor Cymru ....5
Cynyddu atebolrwydd Cymreig dros gydraddoldeb a hawliau dynol....6
Cynghori'r Llywodraeth ....7
Defnyddio tystiolaeth i sbarduno newid ....8
Manteisio i'r eithaf ar Ddyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ....10
Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol ....12
Adeiladu Cymru gynhwysol ....14
Rhaglen Cymru 2012 / 13 ....16

# Cysylltu â ni

Nod y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yw lleihau anghydraddoldeb, dileu gwahaniaethu, meithrin perthynas dda rhwng pobl, a hyrwyddo a diogelu hawliau dynol.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn a rhagor o wybodaeth yn:

www.equalityhumanrights.com/hafan/cymru

neu gallwch ein cysylltu ar

02920 447710

wales@equalityhumanrights.com

© Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Medi 2012
ISBN: 978-1-84206-464-1

# Rhagair

Ym mis Mai 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Prydain Fawr ei hymateb i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan ddatgan rhai newidiadau i 'n cylch gwaith. Gwnaeth yn glir ei bod yn rhagweld y bydd gan y Comisiwn bresenoldeb cadarn ac unigryw yng Nghymru – un a fydd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Rydym yn benderfynol y bydd y Comisiwn yn parhau i fod yn gatalydd pwerus ar gyfer newid.

O edrych yn ôl dros y flwyddyn, rydym yn falch dros ben bod Llywodraeth Cymru a chynifer o sefydliadau sector cyhoeddus eraill wedi defnyddio ein hadroddiad **Pa mor deg yw Cymru?** wrth osod eu hamcanion cydraddoldeb. Pleser o'r mwyaf yw gweld y sector preifat yn mabwysiadu ein polisïau yn y gweithle ar gam-drin domestig ac iechyd meddwl. Mae diogelu hawliau dynol pob un o'n dinasyddion wedi bod yn flaenoriaeth - boed hynny wrth feithrin cysylltiadau rhwng grwpiau difreintiedig â'r cyfryngau i daclo sylw negyddol neu wrth weithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd yn ein cymunedau.

**Ann Beynon, Comisiynydd Cymru**

**Kate Bennett,**
**Cyfarwyddydd Cenedlaethol i Gymru**

Yn y flwyddyn sydd i ddod, byddwn yn sbarduno gwaith gydag ystod eang o bartneriaid i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf. Gwyddom mai tlodi sydd wrth wraidd cryn dipyn o'r anghydraddoldebau yng Nghymru. Byddwn yn ymchwilio i'r berthynas rhwng anfantais economaidd gymdeithasol a'r anghydraddoldeb a ddioddefir gan bobl a nodweddion gwarchodedig ganddynt. Y nodweddion hyn yw rhywedd, hil, cyfeiriadedd rhywiol, oed, anabledd, trawsrywedd, crefydd neu gred, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas a phartneriaeth sifil.

Dim ond agwedd gydlynol at daclo anghydraddoldeb a hyrwyddo hawliau dynol fydd yn effeithiol. Felly, rydym yn awyddus iawn i glywed eich barn am y ffordd orau i adeiladu'r strategaeth integredig a chydlynol sydd ei hangen yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i gyflawni'r strategaeth honno.

# Pwyllgor Cymru – gweithio mewn partneriaeth

Yn **Adolygiad Cymru** y llynedd, gofynnom i bobl weithio gyda ni i ateb yr her ac arwain y newid tuag at Gymru decach.

Bu gweithio gyda phawb ag ymatebodd i'r alwad hon yn ysbrydoliaeth. Mae'r hyn a glywsom o lygad y ffynnon ynglŷn â phryderon a gobeithion unigolion a sefydliadau wrth i ni deithio o gwmpas Cymru yn ein tywys.

Bu'n flwyddyn o lwyddiant drwy bartneriaeth. Gyda'n gilydd, rydym wedi cymryd camau mawr tuag at sicrhau dyfodol cryf i gydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru:

- Mae awdurdodau cyhoeddus wedi gosod amcanion o dan ddyletswyddau cydraddoldeb newydd y sector cyhoeddus i daclo anghydraddoldebau ym maes iechyd, addysg, cyflogaeth, diogelwch ac uwch swyddi
- Mae deddfwriaeth Gymreig newydd yn rhoi cydraddoldeb a hawliau dynol wrth wraidd gwasanaethau cymdeithasol, tai, datblygu cynaliadwy a mesurau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod
- Mae sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat wedi gweithio gyda'r sector gwirfoddol i estyn cyrhaeddiad ein polisïau yn y gweithle ar gam-drin domestig ac iechyd meddwl
- Mae Llywodraeth Cymru'n cymryd argymhellion ein Hymchwiliad i aflonyddu ar sail anabledd ymlaen

Yn awr, mae rhaid inni adeiladu ar y momentwm hwn. Bydd y deuddeg mis nesaf yn gyfnod o gyfleoedd a heriau pellach. Mae ein hamcanion eleni'n cynnwys:

- Helpu awdurdodau cyhoeddus i sicrhau eu bod yn cael y gorau o'r dyletswyddau cydraddoldeb
- Sicrhau bod gostyngiadau yn y gyllideb yn cael eu gwneud yn deg fel na effeithir yn anghymesur ar rai grwpiau
- Defnyddio ein tystiolaeth i gynorthwyo pobl i wneud y penderfyniadau gorau am sut y dylid gwario'r arian a defnyddio'r adnoddau
- Trosglwyddo ein gwybodaeth i undebau llafur ac ymgynghorwyr cyfreithiol eraill er mwyn iddynt fynd i'r afael yn effeithiol â gwahaniaethu.

Gofynnwn i bawb sy'n rhannu ein hagenda i gysylltu a gweithio gyda ni. Mae partneriaethau pwerus yn allweddol i wneud cynnydd, a nod y Pwyllgor yw nodi agendau a rennir ac annog meithrin partneriaethau a all sbarduno newid.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weithio gyda chi yn ystod y flwyddyn i ddod i sicrhau agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref yng Nghymru.

# Cwrdd â Phwyllgor Cymru

**Ann Beynon OBE** yw'r Comisiynydd i Gymru. Ann, gyda chymorth y Cyfarwyddwr Cenedlaethol i Gymru sydd wrth y llyw. Hefyd, Ann yw Cyfarwyddwr BT yng Nghymru.

**Anne Crowley:** Ymgynghorydd ymchwil a pholisi yw Anne, gydag arbenigedd arbennig ym maes plant a phobl ifanc.

**Rhian Davies:** Prif Weithredwr Anabledd Cymru yw Rhian.

**Karen Dusgate:** Prif Weithredwr Cymdeithas Dai Merthyr Tydfil yw Karen.

**Y Parchedig Aled Edwards OBE:** Prif Weithredwr CYTUN (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) yw Aled.

**Siân Gale:** Mae Siân yn gyfarwyddwr i Cwmni Pawb, sy'n arbenigo mewn hyfforddi, ymchwil a gwerthuso i'r diwydiannau creadigol yn ogystal â sefydliadau cymunedol ac undebau llafur.

**Clifton Robinson:** Prif Weithredwr Housing Diversity Network yw Clifton.

**Dr Olwen Williams:** Olwen yw Pennaeth Staff Meddyginiaeth Sylfaenol, Cymunedol ac Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Aelodau'r Pwyllgor o Ebrill 2011 i Ebrill 2012

# Cynyddu atebolrwydd Cymreig dros gydraddoldeb a hawliau dynol

Mae Rhaglen Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i 'archwilio sut y gellir cyflawni atebolrwydd Cymreig cryfach dros ddeddfwriaeth gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru'. Bydd hyn yn cyfrannu at sicrhau agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref yng Nghymru drwy wneud sefydliadau'n atebol a chodi eu perfformiad.

Gofynnodd Gweinidog Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, i'r Comisiwn am gyngor ynglŷn â sut i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Rydym eisoes wedi nodi nifer o faterion sydd ar fin codi wrth inni archwilio sut i gryfhau atebolrwydd.

Mae'r angen i fwrw golwg agos ar y berthynas rhwng cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol yn un allweddol. Yn aml, nid oes cysylltiad rhwng y strategaethau a anelir at gyflawni cydraddoldeb i bobl a nodweddion gwarchodedig ganddynt a'r strategaethau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb economaidd cymdeithasol. Byddai eu dwyn ynghyd yn creu agenda bwerus, gydlynol ac unedig ar gyfer newid.

Rydym yn bwriadu gwneud cyflwyniad i Gomisiwn Silk wrth iddo adolygu pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol a datganoli mwy o bwerau i Lywodraeth Cymru. Fe wnawn amlygu'r bylchau a'r anghysondebau yn y trefniadau deddfwriaethol presennol, pam eu bod o bwys a sut y gellir mynd i'r afael â hwy.

**Ann Beynon, Comisiynydd Cymru a Jane Hutt AC, y Gweinidog Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru**

# Cynghori'r Llywodraeth

Mae gan y Comisiwn gyfrifoldeb statudol i roi cyngor i'r Llywodraeth ynglŷn â materion cydraddoldeb a hawliau dynol.

Mae'r Comisiwn wedi rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ynglŷn â defnyddio Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn ei phroses o bennu'r gyllideb i sicrhau bod penderfyniadau cyllideb yn cael eu gwneud yn deg ac na effeithir yn anghymesur ar rai grwpiau.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru arwain y ffordd drwy fod y cyntaf o lywodraethau Prydain Fawr i gyflwyno dyletswyddau cydraddoldeb penodol newydd – dyletswyddau a gafodd cefnogaeth pob plaid yn y Cynulliad Cenedlaethol. Fe wnaethom gynghori'r Llywodraeth ynglŷn â sut y gellid canolbwyntio'r dyletswyddau hyn ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau. Fel rheolydd y dyletswyddau, rydym yn monitro perfformiad awdurdodau cyhoeddus.

Rhydd y gwaith monitro hwn wybodaeth helaethach i'r Llywodraeth o sut mae'r dyletswyddau'n gweithio fel y gallant nodi'r lefrau gorau ar gyfer newid. Bydd, hefyd, yn ei chynorthwyo o ran adroddiadau Gweinidogol.

Gwnaethom gynghori Llywodraeth Cymru ynglŷn â deddfwriaeth ddrafft a oedd yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Datblygu Cynhwysol a thaclo Trais yn erbyn Menywod. Cynigom ffyrdd a allai rhoi dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol wrth wraidd y ddeddfwriaeth.

Mae hyn yn golygu cyflwyno fframwaith diogelu oedolion fel bo pobl anabl, er enghraifft, sydd wedi dioddef cam-drin ariannol parhaus yn cael lleisio eu barn wrth i benderfyniadau ynglŷn â'u dyfodol gael ei wneud. Mae rhaid i'r pwyslais fod ar daclo ymddygiad troseddol y tramgwyddwyr yn hytrach nag ar gamau sy'n cyfyngu annibyniaeth pobl anabl.

"Mae agenda gydraddoldeb a hawliau dynol gref yn ffurfio yng Nghymru ac mae cyfraniad y Comisiwn yn arwyddocaol i hyn. Ceisio am atebion Cymreig i broblemau Cymreig yw'r nod."

**Jane Hutt AC, y Gweinidog Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru**

"Mae'r CCHD yn glir ynglŷn â beth rydym yn ceisio cyflawni. Nid trais domestig yn unig mae rhaid inni ei leihau, ond troseddau homoffobig a throseddau casineb ar sail anabledd."

**Lindsey Whittle AC, llefarydd ar Gydraddoldeb, Plaid Cymru**

# Defnyddio tystiolaeth i sbarduno newid

Rheolydd yn seiliedig ar dystiolaeth yw'r Comisiwn. Pwrpas ein hymchwil yw nodi a disgrifio anghydraddoldebau a'u rhannu fel y gellir canolbwyntio adnoddau lle mae eu hangen fwyaf.

Mae ein hadroddiad **Pa mor deg yw Cymru?** yn peintio darlun clir o anghydraddoldeb yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn nodi'r heriau allweddol i'w gorchfygu os ydym i wireddu dyfodol tecach i Gymru:

Mynychodd cannoedd o bobl ein cynadleddau i ddeall yr heriau a'r ffordd orau y gallai eu sefydliadau gyfrannu tuag at atebion.

Seiliodd Llywodraeth Cymru a nifer helaeth o awdurdodau cyhoeddus eraill eu hamcanion cydraddoldeb ar heriau **Pa mor deg yw Cymru?** ac mae'r agenda gyffredin hon yn darparu cyfle gwych i wneud cynnydd.

"Mae heriau **Pa mor deg yw Cymru?** yn ffurfio agenda enfawr. Mae'n un na ellir ymdrin â hi dros nos, ond yn un rwy'n meddwl mai pawb yn y Siambr hon wedi eu hymrwymo i wireddu."

**Peter Black AC, llefarydd Cydraddoldeb, Democratiaid Rhyddfrydol**

## Heriau Pa mor deg yw Cymru?

### Bywyd ac iechyd

Lleihau anghydraddoldebau iechyd rhwng grwpiau economaidd cymdeithasol – yn arbennig y rhai hynny sy'n effeithio ar bobl hŷn ac ifanc.

### Addysg a sgiliau

Cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng grwpiau economaidd cymdeithasol – gan gynnwys cyrhaeddiad bechgyn, disgyblion du, Bangladeshaidd a Phacistanaidd a phlant anabl.

Gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET).

### Cyflogaeth

Codi cyfraddau cyflogaeth i'r bobl oll, yn arbennig pobl anabl a phobl hŷn.

Cau bylchau cyflog pobl ethnig, pobl anabl a rhwng y rhywiau yn bellach ac yn gyflymach.

### Diogelwch cyfreithiol a chorfforol

Gostwng helyntion cam-drin domestig a thrais rhywiol a lleihau bwlio homoffobig, trawsffobig a bwlio sy'n gysylltiedig ag anabledd neu grefydd, a throseddau casineb.

### Grym a llais

Cynyddu cyfranogiad grwpiau gwarchodedig yn y broses wneud penderfyniadau a sicrhau bod cyrff y sector preifat, cyhoeddus a'r trydydd sector yn cynrychioli'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Mae ein hadroddiad **Dadansoddiad o anghydraddoldeb economaidd yng Nghymru** yn bwrw golwg ar anghydraddoldeb economaidd o safbwynt nodweddion pobl megis rhywedd, ethnigrwydd, oed ac anabledd. Mae'n cyfeirio at y cysylltiad rhwng y nodweddion gwarchodedig a thlodi a chyfiawnder cymdeithasol.

Gwnaethom lansio'r adroddiad mewn partneriaeth â Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd, Data a Dulliau Cymru mewn digwyddiad lle daeth academyddion, llunwyr polisïau, darparwyr a defnyddwyr gwasanaeth ynghyd i nodi'r camau ymlaen.

Ein nod yw gweld yr adroddiad yn chwarae rhan bwysig wrth lunio polisi i daclo'r ffurfiau newydd a chyson o anghydraddoldeb fel na fo tlodi'n rhywbeth sy'n cael ei drosglwyddo gan rieni i'w plant.

"Mae'r adroddiad **Dadansoddiad o Anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru**, sy'n torri tir newydd, yn darparu tystiolaeth werthfawr bellach o ran effaith cefndir a genedigaeth ar gyfleoedd bywyd ac mae'n bwydo i'n cynllun gweithredu i fynd i'r afael â thlodi."

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cydraddoldeb, Llywodraeth Cymru

## Amcanion Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru 2012-16

- Rhoi anghenion defnyddwyr gwasanaethau wrth wraidd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus allweddol, yn enwedig iechyd, tai a gwasanaethau cymdeithasol, fel eu bod yn ymateb i anghenion pobl a nodweddion gwarchodedig ganddynt.
- Gostwng nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET).
- Taclo rhwystrau a rhoi cymorth i bobl anabl fel y gallant fyw yn annibynnol a defnyddio eu hawl i ddewis a rheoli yn eu bywydau bob dydd.
- Gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael ag achosion y gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth rhwng y rhywiau, pobl ethnig a phobl anabl.
- Creu gweithle mwy cynhwysol sy'n hyrwyddo cyfle cyfartal i staff a nodweddion gwarchodedig ganddynt drwy ymgysylltu'n well â chyflogeion a chynyddu gwybodaeth am y cyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i staff.
- Gostwng helyntion pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig, trais sy'n seiliedig ar urddas, troseddau casineb, bwlio a cham-drin yr henoed.
- Gwella'r ymgysylltu â grwpiau a dan gynrychiolir yn ogystal â'u cyfranogiad mewn penodiadau cyhoeddus.
- Cryfhau gwasanaethau cynghori, rhoi gwybodaeth ac eiriolaeth i helpu pobl a nodweddion gwarchodedig ganddynt i ddeall a defnyddio eu hawliau a gwneud dewisiadau'n seiliedig ar wybodaeth.

# Manteisio i'r eithaf ar Ddyletswydd gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Yn 2011, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau cydraddoldeb penodol pwerus a oedd yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus osod amcanion cydraddoldeb i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf dirfawr.

Bu'r Comisiwn yn gweithio i wella dealltwriaeth awdurdodau cyhoeddus o sut i fanteisio i'r eithaf ar y dyletswyddau. Mae ein tystiolaeth wedi cynorthwyo Llywodraeth Cymru, a phob awdurdod cyhoeddus bron, wrth iddi bennu ei hamcanion cydraddoldeb ar draws feysydd megis iechyd, addysg a chyflogaeth. Mae ein **Canllaw Hanfodol** yn helpu awdurdodau i gael y canlyniadau gorau o'r dyletswyddau.

Mae ymarferwyr cydraddoldeb ein Rhwydwaith Cyfnewidfa Gydraddoldeb yn rhannu gwybodaeth ac arfer effeithiol wrth i'r gwaith ar y dyletswyddau fynd rhagddo.

Mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau nad yw penderfyniadau cyllideb a pholisi yn effeithio'n anghymesur ar bobl a nodweddion gwarchodedig ganddynt yn rhan ganolog o'r dyletswyddau newydd.

Cynhaliom grwpiau trafod, gan ddod ag arweinwyr cyllid a chydraddoldeb awdurdodau lleol ynghyd i fanteisio ar brofiadau ei gilydd o ran dulliau effeithiol i asesu effaith penderfyniadau cyllideb.

Rydym wedi annog sefydliadau'r sector gwirfoddol i ddefnyddio'r dyletswyddau i sicrhau bod eu blaenoriaethau ar agendau awdurdodau cyhoeddus a'u gwneud hwy'n atebol amdanynt. Hyrwyddodd Cymorth i Ferched Cymru ganllaw am ddefnyddio'r dyletswyddau i atal trais yn erbyn menywod. Mae pymtheg o'r dau ddeg dau awdurdod lleol yng Nghymru wedi dewis hynny yn amcan cydraddoldeb.

Drwy Fforwm Arolygiaeth Cymru, sydd newydd gael ei sefydlu, buom yn gweithio gyda Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn, Arolygiaeth Iechyd Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol. Rydym am ddangos mai drwy roi fwy o ystyriaeth i anghenion y bobl fwyaf difreintiedig yn unig y gellir cyflawni gwelliant ym maes gwasanaethau cyhoeddus.

"Galluogodd Deddf Cydraddoldeb 2010 i Lywodraeth Cymru gyflwyno mesurau i daclo anghydraddoldebau yng Nghymru ac i roi tegwch wrth wraidd llunio polisïau. Mae Llywodraeth Cymru yn dibynnu ar y Comisiwn i reoleiddio'r dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, ac rwy'n falch i ddweud, a gafodd sêl bendith unfrydol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r dyletswyddau hyn yn unigryw i Gymru, a rydd gyfle i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf a wynebwn."

**Mohammad Asghar AC, Gweinidog Cydraddoldeb yr Wrthblaid, Ceidwadwyr**

## Monitro pedwar maes allweddol

Fel rheolydd y dyletswyddau, rydym yn annog, tywys a monitro awdurdodau cyhoeddus fel bo'r dyletswyddau'n cyflawni fwy o effaith.

Mae ein gwaith monitro cychwynnol wedi'i ganolbwyntio ar bedwar maes allweddol: iechyd, llywodraeth leol, tân ac achub, a phrifysgolion.

Yn y sector iechyd, rydym yn canolbwyntio ar olrhain ymddiriedolaethau a byrddau iechyd o ran ateb eu dyletswydd i gysylltu â phobl sy'n cynrychioli grwpiau gwarchodedig. Dewisom y gwaith hwn ar gyfer iechyd oherwydd bod cyfuniad o alwadau cynyddol, adnoddau cyfyng a'r angen i ail-lunio yn golygu ei bod hi'n hanfodol i gysylltu â dinasyddion wrth bennu blaenoriaethau.

Gydag awdurdodau lleol, rydym yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldeb i asesu effaith y penderfyniadau a wneir ganddynt.

Gwyddom y gall ymgymryd ag asesiadau effaith ar gydraddoldeb alluogi gwell penderfyniadau a mwy o dryloywder. Mae ganddynt y potensial i sicrhau rhan fwy blaenllaw i bobl wrth nodi blaenoriaethau – yn ogystal â diogelu'r mwyaf difreintiedig.

Gyda gwasanaethau Tân ac Achub, rydym yn canolbwyntio ar bobl anabl am fod gan y mwyafrif o'r rhai y lleddir gan danau tai yng Nghymru gyflwr iechyd meddwl.

Gyda phrifysgolion, ar hyn o bryd, mae 20% o fwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac felly yng Nghymru rydym yn arbennig yn bwrw golwg ar y cynnydd o ran mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

Fe wnawn rannu ein casgliadau ynglŷn â'r sectorau allweddol hyn gyda'r Gweinidogion priodol yng Nghymru wrth iddynt baratoi eu hadroddiadau statudol o dan y dyletswyddau newydd.

# Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol

## Cyflwyno polisïau yn y gweithle newydd

Daethom ag arbenigedd y sector gwirfoddol a phrofiad cyflogwyr ynghyd i lunio a hyrwyddo canllaw yn y gweithle effeithiol sy'n cynnwys staff a chyflyrau iechyd meddwl ganddynt a staff sy'n dioddef cam-drin domestig. Eleni, drwy ystod o rwydweithiau sector cyhoeddus a phreifat, rydym wedi cynyddu'r nifer sy'n defnyddio'r polisïau hyn.

Ym mis Medi, daeth mwy na 30 o sefydliadau mwyaf y sector cyhoeddus a phreifat yng Ngogledd Cymru ynghyd, yn ogystal â chynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol ac undebau llafur, i annog gweithredu ar daclo cam-drin domestig. Dysgodd y cyflogwyr hyn sut, drwy gymryd nifer o gamau ymarferol bach yn y gweithle, y gallant leihau absenoldeb salwch, arbed arian ac achub bywydau. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Stuart McKenna o'r 'Co-operative Group' - un o sefydliadau'r sector preifat a oedd yn arwain y ffordd drwy fod â pholisi cam-drin domestig effeithiol yn ei le.

Mae sefydliadau megis Coleg Meirion-Dwyfor, Cyngor Conwy, Convatec a Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa yn defnyddio ein canllaw i wella eu polisïau cydraddoldeb yn y gweithle.

Gwnaeth ein cyflwyniad i Seminar Cyflogwyr Fforwm Canolfan Gysylltu Cymru ar ein polisi cam-drin domestig yn y gweithle gyrraedd dros 50 o gynadleddwyr o'r sector preifat, gan gynnwys cynrychiolwyr o Nwy Prydain, Scottish and Southern Energy, Banc Barclays ac ING Direct. Mae'r Fforwm, yn awr, yn llunio ei ganllaw ei hunan ar y wefan, gan gyfeirio sefydliadau at ein pecyn cymorth.

Mae gwaith gennym yn mynd rhagddo gyda'r prif gyflogwr Cassidian, sydd yn y broses o roi polisi cam-drin domestig ar waith ar gyfer eu 800 o weithwyr.

"Mae cyflogwyr, megis yr AA, Admiral a HSBC, yn defnyddio canllaw'r Comisiwn i roi cymorth i gyflogeion i oroesi sefyllfaoedd trawmatig. Drwy waith uniongyrchol yn y sector cyhoeddus, mae 150,000 o weithwyr yn cael cymorth gan gynlluniau sy'n cynnwys afiechyd meddwl a cham-drin domestig."

**Ann Jones AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

"Roedd clywed Wayne yn siarad am gydraddoldeb yn y sector preifat a'r atebion y gellid eu defnyddio mewn mannau eraill yn ysbrydoledig."

**Cynadleddwr**

## Rhannu arfer effeithiol

Mae gan Rwydwaith ein Cyfnewidfa Gydraddoldeb o gyflogwyr dros 150 o aelodau. Mae'r rhwydwaith yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu arfer effeithiol ac atebion arloesol i hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol.

Yn 2011, daeth ymarferwyr cydraddoldeb ac adnoddau dynol ynghyd yn ein Cynhadledd Gyfnewidfa Gydraddoldeb 'Ateb yr Her, Arwain y Newid', i ddod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo cydraddoldeb, cau bylchau, ac archwilio i sut y gellid defnyddio tystiolaeth gydraddoldeb i sicrhau fod adnoddau'n cael eu canolbwyntio lle mae eu hangen fwyaf.

Amlygodd Alison Ward, Prif Weithredwr Cyngor Torfaen, heriau cydraddoldeb y sector cyhoeddus wrth iddo wynebu gostyngiadau yn y gyllideb.

Pwysleisiodd Bill Kerry o'r 'Equality Trust' fod cau'r bylchau yn fantais i bawb, yn ôl tystiolaeth, ac nid yn unig i'r rhai a oedd wedi eu heffeithio'n uniongyrchol.

Yn ôl Wayne Gwilym, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol y cwmni byd eang Rockwool, mae gwerthoedd, dilysrwydd ac arweinyddiaeth yn bwysig i'r sector preifat yn ystod cyfnodau anodd. Dywedodd fod sefydliadau amrywiol yn fwy hyblyg ac ystwyth.

O ganlyniad i'r Gynhadledd, mae'r Rhwydwaith wedi ffynnu ac mae'r cysylltiadau rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r sector preifat wedi cynyddu ac mae aelodau'r Rhwydwaith wedi rhannu astudiaethau achos a oedd yn ymwneud â sbarduno newid yn llwyddiannus.

**Wayne Gwilym, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Rockwool Ltd**

# Adeiladu Cymru gynhwysol

## Herio gwahaniaethu

Eleni, cynhaliodd y Comisiwn sesiynau hyfforddi mewn mwy na 85% o swyddfeydd Cyngor i Bopeth Cymru. Hefyd, cyrhaeddom gynghorwyr mewn sefydliadau megis Llais Defnyddwyr/ Cyswllt Defnyddwyr a Safonau Masnach, MEIC Cymru, BAWSO, Swyddfa Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Age Cymru a Shelter Cymru. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae gan dros 450 o gynghorwyr y rheng flaen, yn awr, well ddealltwriaeth o sut y gellir defnyddio Deddf Cydraddoldeb 2010 i ddiogelu unigolion rhag gwahaniaethu.

Mae ein Cwrs Sgiliau Tribiwnlys Cyflogaeth a Chyfraith Gwahaniaethu yn parhau i fod yn llwyddiannus. Yn ogystal â sesiynau yng Nghaerdydd a Wrecsam, mae gennym fersiwn ar-lein am y tro cyntaf er mwyn i ni allu ymestyn cyrhaeddiad ein cwrs. Cwblhaodd oddeutu 60 o gynghorwyr y cyrsiau eleni, gan esgor ar sgiliau i gynrychioli cleientiaid mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth. Mae adborth y rhai a gwblhaodd y cwrs yn dangos ei fod yn helpu unigolion i herio gwahaniaethu ac yn mynd i'r afael â'r 'anialwch cyngor' sydd yng Nghymru.

## Hyrwyddo urddas a pharch

Ar y cyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, fe luniom restr safonol Cymraeg o dermau cydraddoldeb a hawliau dynol. Cafodd ei lansio gennym yn Eisteddfod Genedlaethol 2011 yn Wrecsam. Mae'r adnodd newydd hwn ar ein gwefan, ac o'i herwydd, gall pawb – boed hwy'n gyflogeion cyngor lleol, swyddogion bwrdd iechyd neu aelodau o'r cyhoedd – ddefnyddio iaith sydd yn hybu Cymru gynhwysol fel bo pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch.

## Newid ymagweddau

Daethom ag ymarferwyr y cyfryngau a chynrychiolwyr grwpiau difreintiedig ynghyd, gan gynnwys Sipsiwn –Teithwyr, pobl a chyflyrau iechyd meddwl ganddynt, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, a phobl drawsryweddol i helpu i herio'r portreadu negyddol gan y cyfryngau o rai grwpiau. Gwnaeth y gwaith hwn feithrin perthnasau gweithio defnyddiol ac arwain at raglenni dogfen positif a sylw cadarnhaol gan y cyfryngau.

"Darparodd yr adroddiad **O'r Golwg yng Ngolwg Pawb** sylfaen drwyadl i ymchwiliad y pwyllgor, a diolchaf i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol am ei ymdrechion i ddod â'r broblem bwysig hon at sylw'r cyhoedd yn gyffredinol."

**Ann Jones AC, Cadeirydd, Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

## Dileu aflonyddu ar sail anabledd

Oherwydd ein Hymchwiliad i aflonyddu ar sail anabledd, ymgymerodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol ag Ymchwiliad ei hunan i fwrw golwg ar sut y gallai Llywodraeth Cymru roi ein hargymhellion ar waith. O ganlyniad, mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi fframwaith Troseddau Casineb ar gyfer gweithredu.
Fel cam cyntaf, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil i gymhelliad tramgwyddwyr, a fydd yn ein helpu i daclo'r hyn sydd wrth wraidd aflonyddu. Mae Heddlu Dyfed Powys yn ymgymryd â gwaith peilot yn y defnydd o Gynadleddau Asesu Risg Aml - Asiantaeth i roi cymorth i unigolion ac i atal aflonyddu rhag dwysáu. Mae llawer o awdurdodau cyhoeddus wedi gosod amcan i ostwng troseddau casineb. Rydym, felly, yn disgwyl gweld newidiadau gwirioneddol yn y flwyddyn i ddod.

## Cael mwy o fenywod i fywyd cyhoeddus

Mae ein gwaith ar **Bwy sy'n rhedeg Cymru?** yn amlygu prinder menywod mewn swyddi o rym a dylanwad yng Nghymru. Cafodd ein hadroddiad ei hyrwyddo mewn digwyddiadau ledled y wlad a oedd yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod. Mewn partneriaeth â'r Llywydd, gwnaethom annog fwy o fenywod i gynnig eu hunain i geisio am uwch swyddi o rym a dylanwad.

Ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Merched yn Gwneud Gwahaniaeth a Chwaraeon Cymru, rydym yn gweithio i ganfod ffyrdd i sicrhau fwy o amrywiaeth ymysg y rhai a benodir i swyddi cyhoeddus yng Nghymru. O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus fel amcan cydraddoldeb ac wedi bwrw ymlaen â rhaglen beilot gyda Chwaraeon Cymru i nodi arfer dda.

**Bal Gill, CCHD, Jean Francis, Torfaen People First a'r Uwch-arolygydd David Johnson, Heddlu Gwent**

# Rhaglen Cymru 2012 / 13

Mae gan y Comisiwn yng Nghymru bum flaenoriaeth allweddol ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddwn yn:

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu atebolrwydd Cymreig cadarnach ar gyfer deddfwriaeth gydraddoldeb a hawliau dynol, gan gynnwys gorfodi'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Fe wnawn gyflwyniad i Gomisiwn Silk sy'n amlinellu sut y gellid cryfhau deddfwriaeth gydraddoldeb yng Nghymru a'i wneud yn eglurach.

Defnyddio ein sylfaen dystiolaeth i gynorthwyo sefydliadau wrth lunio deddfwriaeth, pennu blaenoriaethau a llunio polisïau sy'n mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau mwyaf yng Nghymru.

Hyrwyddo, monitro a rheoleiddio Dyletswydd Gydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fel bo'r dyletswyddau a'r asesu effaith ar gydraddoldeb yn arwain at benderfyniadau a gwasanaethau gwell.

Gweithio'n agos gyda chyflogwyr fel eu bod yn gwybod mwy am broblemau cydraddoldeb a hawliau dynol. Fe wnawn annog cyflogwyr y sector cyhoeddus a phreifat i fabwysiadu  polisïau yn y gweithle sy'n ymwneud â cham-drin domestig ac iechyd meddwl.

Byddwn yn darparu cyrsiau i undebau llafur a darparwyr cyngor fel bo gan unigolion wybodaeth well am faterion gwahaniaethu a hawliau dynol.

Fe wnawn y defnydd gorau o adnoddau llai drwy ailstrwythuro a newid y ffordd yr ydym yn gweithio i gyflawni'r blaenoriaethau hyn.